

POLISI'R IAITH GYMRAEG

Nodau'r Cynllun

Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddwn yn ymdrin â'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o safbwynt ein gweithgareddau busnes cyhoeddus yng Ngheredigion.

Amcanion

- I alluogi unrhywun sy'n defnyddio ein gwasanaeth neu sydd mewn trafodaethau gyda ni i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â dewis personol yr unigolyn.
- I sicrhau gwasanaeth o safon uchel drwy gyfrwng y Gymraeg.
- I hybu eraill i hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg.
- I hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Rydym yn cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well drwy'r iaith o'u dewis hwy. Rydym hefyd yn cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn arferiad da yn hytrach na chonsesiwn a bod eu hatal rhag defnyddio'u hawl i ddefnyddio'u hiaith ddewisedig yn eu gosod o dan anfantais. Er mwyn cyd-fynd â'r egwyddor uchod byddwn yn rhoi'r cynnig i'r cyhoedd i ddewis ym mha iaith yr hoffent fynegi eu hunain wrth ymdrin â ni.

Gohebiaeth

Croesawn ohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a byddwn yn ymdrechu i ymateb yn y Gymraeg pan fydd amser ac adnoddau yn caniatáu.

Cyfathrebu dros y ffôn

Pan fydd aelod o'r cyhoedd yn galw ac yn dymuno siarad drwy gyfrwng y Gymraeg gwnawn bob ymdrech i ymateb yn y Gymraeg neu fel arall byddwn yn trosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, nid oes gennym aelodau o staff sy'n siaradwyr Cymraeg ym mhob swyddfa ac yn yr achlysuron hynny fe gynigir eu bod un ai'n parhau â'r alwad drwy'r Saesneg neu byddwn yn gofyn i siaradwr Cymraeg eu ffonio yn ôl yn hwyrach ymlaen.

Bydd aelodau o staff yn ateb galwadau ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Pan fyddwn yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau tebyg, byddwn yn egluro i'r rheiny sy'n bresennol bod croeso iddynt gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd rhai amgylchiadau'n codi o ran y wybodaeth sydd ar gael, a olygir bod rhai gweithgareddau'n cael eu cynnal yn ddwyieithog, rhai'n uniaith Gymraeg ac eraill yn uniaith Saesneg.

Bydd y trefnydd yn asesu i weld a oes angen offer cyfieithu ai peidio.

Cyfarfodydd eraill

Croesawn gyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg gyda'r cyhoedd ond oherwydd prinder mewn siaradwyr Cymraeg, ni allwn warantu y gellir, ar bob achlysur, gynnal cyfarfod wyneb yn wyneb drwy'r Gymraeg ond fe wneir pob ymdrech i ateb gofynion unigolion.

Cyfathrebu gyda'r cyhoedd drwy ffyrdd eraill

Yn ystod yr achlysuron lle byddwn yn delio â'r cyhoedd byddwn yn ystyried yr opsiynau gorau er mwyn ateb gofynion siaradwyr Cymraeg.

Rydym wedi ymrwymo i alluogi'r cyhoedd i ddelio â ni yn y Gymraeg drwy gyfathrebu electronig ar-lein neu drwy gyfryngau eraill.

Deunydd marchnata a llenyddiaeth

Gwnawn bob ymdrech i sicrhau bod deunydd marchnata ar gael yn ddwyieithog. Yn bresennol rydym yn cynhyrchu cannoedd o bamffledi ac yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod ar gael yn ddwyieithog.

Dyddiad wedi'i adolygu: Tachwedd 2018